# SL(6)095 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2021

## Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Rhif 14) 2021 ("y Rheoliadau") yn dirymu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2021 ("Rheoliadau Rhif 13").

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, a'r rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr, ac fe wneir y Rheoliadau wrth ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) yn Ddeddf honno.

Yn wreiddiol, diwygiodd Rheoliadau Rhif 13 Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") i ychwanegu Mozambique a Malawi at y rhestr o wledydd neu diriogaethau yn Atodlen 3A (gwledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Yn unol â rheoliad 12E (mesurau ychwanegol sy'n gymwys i bersonau sy'n teithio o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, mae personau nad ydynt yn esempt wedi eu gwahardd rhag dod i Gymru pan fônt wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol o fewn 10 niwrnod i gyrraedd.

Nodwn, fodd bynnag, er bod Rheoliadau Rhif 13 i fod i ddod i rym am 8.00 pm ar 26 Tachwedd 2021, bod y Rheoliadau wedi'u dirymu am 19:59 ar 26 Tachwedd 2021. Wedi hynny, ychwanegodd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) 2021 Angola, Malawi, Mozambique a Zambia at Atodlen 3A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol am 04:00 ar 28 Tachwedd 2021.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod yn cael ei thorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 26 Tachwedd 2021. Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

> *"Yn dilyn fy llythyr yn gynharach heddiw ynghylch Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2021, ac yn unol ag adrannau 4(1) a 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu nad yw'r Offeryn Statudol hwn wedi cadw at y confensiwn 21 diwrnod ac y bydd yn dod i rym am 19:59 oriau ar 26 Tachwedd 2021, cyn y gellir ei osod. Bwriadaf ei osod, ynghyd â Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, ar 29 Tachwedd."*

Nodwn ymhellach yr esboniad canlynol yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd y risg a berir mewn perthynas â'r coronafeirws ac yn enwedig straeniau sy'n amrywiolion o'r feirws hwnnw, oddi wrth deithwyr sy'n teithio i'r DU. Mae amrywiolyn o COVID-19 sy'n peri pryder mawr, a elwir yn Omicron, wedi'i nodi mewn sawl gwlad. Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi'i ddynodi'n amrywiolyn sy'n peri pryder, oherwydd y nifer mawr o fwtaniadau y mae rhai ohonynt yn destun pryder.*
>
> O ganlyniad i asesiad o'r risg sy'n gysylltiedig â'r amrywiolyn hwn, roedd Llywodraeth y DU yn bwriadu ychwanegu Angola, Malawi, Mozambique a Zambia at y 'rhestr goch' o wledydd ond yn sgil yr angen i gael cytundeb cyfunol ar draws y DU, bu oedi o ran gosod Rheoliadau'r DU. I sicrhau cysondeb yng Nghymru â'r sefyllfa yn Lloegr, di-rymwyd y Rheoliadau.
>
> *Drwy beidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod, roedd modd i'r Rheoliadau hyn ddirymu'r Rheoliadau blaenorol cyn iddynt ddod i rym, gan barhau â'r ymagwedd gyffredin ar draws y pedair gwlad mewn perthynas â theithio rhyngwladol.*
>
> *Yn dilyn datblygiadau pellach y noswaith honno a thrafod pellach ar draws y DU, ychwanegwyd Angola, Malawi, Mozambique a Zambia at y rhestr goch o wledydd ar 27 Tachwedd."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> "*Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.*"

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**30 Tachwedd 2021**